# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019

Amser: 08.30 - 08.50

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Trefnydd y bydd yn ateb cwestiynau yn lle'r Prif Weinidog.

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Dirprwy Lywydd y bydd sesiwn fer o Bwyllgor y Cynulliad Cyfan yn syth ar ôl y cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth. Mae hyn er mwyn ystyried cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau cyn ystyried Cyfnod 2 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Gofynnodd iddynt annog Aelodau i aros yn y Siambr trwy gydol y cyfarfod hwnnw - os oes llai nag 20 Aelod yn bresennol yna fydd cworwm yn y cyfarfod.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid canlynol i Fusnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 15 Hydref 2019**

~~**Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Cefnogi Awdurdodau Tai Lleol i sicrhau opsiynau tai tymor hir yn y Sector Rhentu Preifat (45 munud) – Gohiriwyd tan 5 Tachwedd**~~

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod Neil McEvoy wedi gofyn i NNDM7127 gael ei ystyried eto gan y Pwyllgor Busnes.

Cadarnhaodd pob Rheolwr Busnes nad oedd eu safbwyntiau wedi newid ers yr wythnos diwethaf, a chytunwyd na fyddent yn ystyried yr un cynnig eto, oni bai bod newid sylweddol mewn amgylchiadau. Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes roi gwybod iddi pe bai eu barn neu eu hamgylchiadau yn newid mewn ffordd a allai arwain y Pwyllgor i wneud penderfyniad gwahanol.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 9 Hydref 2019 –**

- ~~Dadl Fer Jack Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy) (30 munud)~~ – *wedi'i ohirio tan 16 Hydref*

**Dydd Mercher 16 Hydref 2019 –**

- Dadl Fer Jack Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy) (30 munud) – *wedi'i ohirio o 9 Hydref*

**Dydd Mercher 23 Hydref 2019 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllido Ysgolion yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

# 4 Rheolau Sefydlog

## 4.1 Adolygu Rheolau Sefydlog

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur a chytuno ar feysydd Rheolau Sefydlog i'w hadolygu. Cytunwyd i drafod unrhyw feysydd pellach i'w hadolygu gyda'u grwpiau a dychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf os bydd angen.

# Unrhyw Fater Arall

Gofynnodd y Llywydd i Reolwyr Busnes am eu henwebiadau ar gyfer aelodau Pwyllgor Diwygio'r Cynulliad. Cytunodd Rhun ap Iorwerth a Rebecca Evans i gadarnhau dewisiadau eu grwpiau cyn gynted â phosibl, a dywedodd Caroline Jones wrth y Rheolwyr Busnes y byddai Plaid Brexit yn enwebu David Rowlands.